## ATODLEN 3

Rheoliad 5

### Personau rhagnodedig – paneli gorchmynion interim

**1.**—(1) Person sydd am y tro yn ymwneud ag ymchwiliad o dan adran 125 o'r Ddeddf.

(2) Person sydd am y tro wedi ei benodi'n—

(a) asesydd neu archwiliwr, neu

(b) cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd arall,

i'r panel gorchmynion interim.

**2.**—(1) Ni chaiff person sydd ar unrhyw adeg wedi cael ei benodi i roi ystyriaeth ragarweiniol o dan adran 119 o'r Ddeddf i fater fod yn aelod o'r panel gorchmynion interim yr atgyfeirir y mater iddo.

(2) Ni chaiff person sydd ar unrhyw adeg wedi bod yn ymwneud ag ymchwiliad o dan adran 125 o'r Ddeddf mewn perthynas â mater fod yn aelod o'r panel gorchmynion interim yr atgyfeirir y mater iddo.

(3) Pan fo'r amgylchiadau yn is-baragraff (4) yn gymwys, ni chaiff person sydd ar unrhyw adeg wedi ystyried cwestiwn neu bwynt ar ran corff perthnasol neu sydd wedi dyfarnu ar gwestiwn neu bwynt ar ei ran fod yn aelod o'r panel gorchmynion interim yr atgyfeirir y mater iddo.

(4) Yr amgylchiadau yw—

(a) mae'r mater yn ymwneud â pherson cofrestredig sydd hefyd wedi ei gofrestru â chorff perthnasol; a

(b) mae'r corff perthnasol wedi ystyried cwestiwn neu bwynt sy'n ymwneud â chofrestriad y person cofrestredig â'r corff hwnnw ac sydd hefyd yn ymwneud â'r mater neu wedi dyfarnu ar gwestiwn neu bwynt o'r fath.